# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Ionawr 2020

Amser: 13.29 - 14.58

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5893

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>Huw Irranca-Davies AC<br>David Melding AC<br>Dai Lloyd AC (yn lle Delyth Jewell AC) |
| Tystion: | Jeremy Miles AC, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit<br>Simon Brindle, Llywodraeth Cymru<br>Sophie Brighouse, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Alun Davidson (Clerc)<br>Claire Fiddes (Dirprwy Glerc)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sara Moran (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Delyth Jewell. Dirprwyodd Dai Lloyd ar ei rhan.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mandy Jones.

1.4 Datganodd Huw Irranca-Davies fuddiant gan ei fod yn Gadeirydd y Grŵp Cynghori ar Ewrop, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru, a Chadeirydd y Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol.

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

2.1 Atebodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit gwestiynau gan yr Aelodau.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan Gynullydd Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Materion Allanol Senedd yr Alban at y Cadeirydd ynghylch Bil yr UE (Cytundeb Ymadael) - 16 Ionawr 2020

3.1.1 Cafodd y papur ei nodi.

### 3.2 Papur i'w nodi 2: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit at y Cadeirydd ynghylch cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: blaenoriaethau negodi i Gymru' - 20 Ionawr 2020

3.2.1 Cafodd y papur ei nodi.

### 3.3 Papur i'w nodi 3: Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi at y Cadeirydd ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) - 21 Ionawr 2020

3.3.1 Cafodd y papur ei nodi.

### 3.4 Papur i'w nodi 4: Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Cadeirydd ynghylch y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach - 23 Ionawr 2020

3.4.1 Cafodd y papur ei nodi.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit – trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol

6.1 Gwnaeth yr Aelodau drafod a nodi'r cytundebau a ganlyn:

6.1.1 y DU/Swistir: Transitional Agreement on Social Security for a Temporary Period following the Withdrawal of the UK, ac

6.1.2 Economic Partnership Agreement between the Southern African Customs Union and Mozambique and the UK.